



“Gydol fy oes, alla i ddim cofio bod yn rhan o unrhyw beth lle gallwn i synhwyro gwaith yr Ysbryd mor eglur” Yr Archesgob Justin Welby

Mae'r Archesgob Justin yn gobeithio gweld pob Eglwys yn ymuno yn y don fyd-eang hon o weddi. Dyma sut gallwch chi gymryd rhan:

1. Dechreuwch gynllunio




Mae cynifer o syniadau ynghylch beth gallwch chi wneud ac adnoddau i'w [lawrlwytho](#) am ddim.

Cynhelir digwyddiadau gweddi o bob maint a math rhwng 25 Mai a 4 Mehefin 2017, gan gynnwys ystafelloedd gweddi 24-7, diwrnodau gweddi, teithiau cerdded a gweddiö a hanner nosweithiau o weddi.

Bydd eglwysi cadeiriol, eglwysi a lleoliadau eraill yn cynnal Digwyddiadau Goleufa, ac yn cynnull pobl ar draws trefi a dinasoedd i adoli a gweddiö am allu grymusol yr Ysbryd Glân er mwyn gallu tystiolaethu'n effeithiol.

Mae adnoddau i hyrwyddo digwyddiadau (beth bynnag yw eu maint), rhoddion bychain i'ch cynulleidfaoedd a syniadau ar gyfer gwasanaethau ar gael i'w prynu o www.cpo.org.uk/thykingdomcome.

2. Gwnewch i'ch golau ddisgleirio



Mae Iesu yn ein galw i fod yn oleuni'r byd. Anogwch aelodau eich eglwys i wneud ymrwymiad personol i gymryd rhan fel unigolion a theuluoedd trwy ymuno ag [#AddoGweddiö yma](#), a dangos eich golau ar y map. Rhowch wybod i ni am y digwyddiadau a'r gweithgareddau rydych chi'n eu cynllunio fel eglwys [yma](#), fel bod eraill yn gallu cael eu hysbrydoli ac ymuno! Yn ystod yr wythnosau nesa byddwn ni'n cadw mewn cysylltiad, ac yn anfon fideos ac adnoddau atoch chi i'ch annog a'ch ysbrydoli.

3. Rhowch wybod i ni, ac ysbrydoli eraill

Ymunwch â'r gymuned fyd-eang ar-lein a rhanwch y pethau rydych chi'n eu gwneud ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar eich gwefan, a gallwch ddilyn beth mae pobl eraill yn ei wneud yn y ffyrdd canlynol:

Mae fideos gwych ar gael i'w defnyddio mewn gwasanaethau a'u rhannu yn eich rhwydweithiau yn:

 /thykingdomcome

 thykingdomcomeglobal

Cysylltwch â ni ar unrhyw rai o'r llwyfannau hyn:

 @ThyKingdomComeUK

 @thykingdom_come

 @Pledge2Pray

Peidiwch ag anghofio defnyddio'r hashnod [#AddoGweddiö](#) a [#DeledDyDeyrnas](#) ym mhob postiad er mwyn i ni fedru helpu i hyrwyddo eich gwaith.



4. Byddwch yn ddisgwylgar



Wrth i ni weddiö 'Deled Dy Deyrnas', gadewch i ni ystyried beth gallai Duw fod yn ein galw i'w wneud yn ein heglwysi, ein cartrefi a'n bywydau ein hunain. Rydyn ni'n gobeithio eich cynnal ar y daith barhaus hon fydd yn ein helpu ni i gyd i fod yn dystion i Iesu. Cadwch lygad ar agor am adnoddau newydd ar hyd Deled Dy Deyrnas i helpu pobl i [rannu eu ffydd](#).